Syniadau A. G.

Tymor yr Haf 2021 *gan Mrs Samantha Bray*

Anrhegion a Rhoddi

Mae'r rhifyn yma o Syniadau AG yn ein hannog i feddwl am y gwahanol fathau o anrhegion fyddwn ni yn eu rhoi i eraill.
Byddwn hefyd yn trafod paham fod rhoi mor bwysig.
Byddwn yn edrych yn fanwl ar yr arferiad o roi ar wyliau Cristnogol fel y Nadolig a gŵyl Eid-al- Fitr y Moslemiaid a pham eu bod yn arwyddocaol.

DOWCH I NI FEDDWL …….

TASG Fy hoff anrheg

Annog disgyblion i feddwl am yr anrheg gorau maent wedi ei dderbyn.
Gofynnwch iddynt dynnu llun ohono (pwysleisiwch gynnwys manylion gan y bydd hyn yn eu helpu i ateb y cwestiwn nesaf…)
Wedi gwneud hyn, dylent egluro i'r person nesaf atynt PAM ei fod mor a bwysig iddynt.

Rhai cwestiynnau i helpu trafodaeth:

Pwy roddodd yn anrheg i chi ?
Paham? I beth?
Beth sydd yn ei wneud yr un gorau
Pam ei fod yn well na'r lleill ?
Sut oeddech chi yn teimlo bryd hynny?
Sut ydych chi yn teimlo wrth feddwl am hyn rwan ?

RHOI ANRHEG

C. Ydych chi rhyw dro wedi rhoi anrheg i rywun arall?
Meddyliwch am y canlynol a thrafodwch gyda'ch pardner :

- Sut oeddech chi yn teimlo wrth roi?
- Sut oedden nhw yn teimlo wedi ei agor ?
- Sut oeddech chi yn teimlo wrth weld yr ymateb yma ?

Gŵyl y Nadolig

TASG Edrychwch eto ar stori y Nadolig drwy roi y lluniau isod yn eu trefn gywir.

Cerddodd y bugeiliaid i Fethlehem i weld y baban Iesu	Cyrhaeddodd y doethion Fethlehem. Cyflwynasant anrhegion i Iesu	Rhaid i Mair a Joseff fynd i Fethlehem i dalu trethi. 
Ymwelodd yr angel â Mair a dweud ei bod am gael babi o'r enw Iesu	Gadawodd tafarnwr ym Methleham i Mair a Joseff aros yn ei stabl dros nos	Draw ymhell yn y Dwyrain, gwelodd doethion seren ddisglair yn yr awyr.

Yr Anrhegion Nadolig Cyntaf

Y noson y ganwyd y baban Iesu gwelodd 3 dyn doeth o'r enw Melchior, Caspar a Balthazar seren lachar yn yr awyr. Gwyddent felly fod brenin newydd wedi ei eni. Aethant i ymweld â'r baban Iesu gydag anrhegion arbennig o aur, thus a myrr iddo.

Aur – metal gwerthfawr

Thus – daw hwn o goed ac mae'n berarogl arbennig.

Myrr – daw o goed pigog a defnyddir ef fel math o olew .

Anrhegion - anrhegion fel yr rhain a roddwyd i Iesu yn debyg i'r math o anrhegion fyddai'n cael eu rhoi i frenhinoedd yr oesau a fu.

BETH AM FEDDWL …….

Traddodiadau Nadolig

eglwys

y preseb

torch

cinio

carolau

Coed Nadolig

Cardiau Nadolig

Canhwyllau/goleuadau

anrhegion

TASG

Edrych ar y lluniau - 'Traddodiadau y Nadolig'. Gyda'ch pardner, trafodwch bob traddodiad a'r hyn wyddoch chi amdanynt. Fedrwch chi egluro pam fod gan y Cristnogion y traddodiadau yma a pham eu bod mor bwysig? Rhannwch eich syniadau fel dosbarth

**Efallai yr hoffech weithio mewn grwpiau a chwilio mwy am ambell un o'r traddodiadau ac adrodd yn ôl i'r gweddill.*

TASG Yr Anrheg mwyaf gwerthfawr

Cred Cristnogion mai Iesu yw'r anrheg mwyaf gwerthfawr a'i fod wedi ei roi i ni gan Dduw.

Pa anrhegion eraill fyddech chi yn ei roi i rywun ?

Oes rhaid iddo fod , bob amser, yn rhywbeth rydych yn ei brynu ?

Gŵyl Eid-al-Fitr

TASG Darllenwch y stori a defnyddiwch yr wybodaeth i gwblhau y croesair isod.

Stori Zayan

Eid-al-Fitr (gŵyl gorffen yr ympryd) Dyma pryd mae'r Moslemiaid yn dathlu diwedd Ramadan. Mae'n cymryd lle ar y degfed mis ar y calendr Islamaidd.

Ramadan yw'r amser pan fydd Moslemiaid fel fi yn diolch i Alla (Duw) am roi i ni yr awydd i ymprydio (hy. mynd heb fwyd yn ystod oriau'r dydd a hynny am fis cyfan). Rydym yn dathlu diwedd Ramadan gyda gŵyl Eid-al-Fitr. Dyma hefyd yr amser pan fydd Moslemiaid yn meddwl am eraill.

Mae'r ŵyl yn cychwyn pan fydd y lleuad newydd i'w weld yn yr awyr. Ar fore Eid, bydd pawb yn gwisgo eu dillad a'u hesgidiau gorau. Bydd llawer ohonom yn cael dillad newydd ar gyfer yr ŵyl.

Bydd y merched a'r genethod yn addurno eu dwylo gyda phatrymau prydferth elwir y mehndi(henna). Bydd rhai merched hefyd yn gwisgo persawr i fedru ogleuo yn hyfryd!

Byddwn yn mynd i'r Mosg gyda'n teulu i gyfarfod gweddi y bore - mae'n bwysig bryd hyn, i dreulio amser gyda'r teulu. Pan fyddwn yn gweddïo, rydym yn gorchuddio ein gwallt i ddangos parch i Allah.

Bydd merched yn gwisgo sgarff a'r dynion yn gwisgo hetiau.

Byddwn yn cyfnewid cardiau Eid – gyda'r neges 'Eid Mubarak!' sy'n golygu 'Bendith yr Eid arnoch'. Rydym hefyd yn rhoi anrhegion i'n gilydd (eidi) sydd yn cael eu hagor fel arfer wedi'r amser gweddi. Rhoddir anrhegion fel melysion, basgedi o anrhegion dillad a gemau.

Byddwn yn rhoddi bwyd a/neu arian i Foslemiaid llai ffodus. Gelwir hyn yn zakat - achos da yn ystod Ramadan neu Eid al-Fitr. Mae hefyd yn eu helpu i ddathlu Eid al-Fitr.

Bydd ein teuluoedd yn edrych ymlaen i dreulio amser gyda'i gilydd, i ddathlu y gwyliau ac wrth gwrs i fwyta llawer o fwyd arbennig.



AR DRAWS	I LAWR
1. Ym mha fis mae Eid-al-Fitr yn digwydd? 3. Beth ydi'r arwydd yn nodi cychwyn Eid-al-Fitr? 4. Yn cael ei wisgo gan ferched yn ystod Eid 7. Beth yw'r cyfarchiad a ddywedir gan deulu a ffrindiau yn ystod Eid? 8. Amser i ffwrdd o waith ac ysgol. 9. Enwau'r anrhegion a roddir yn ystod Eid.	1. Yn cael ei wisgo gan y teulu yn ystod Eid 2. Mae Eid yn amser arbennig i dreulio gyda phwy? 5. I ble mae Moslemiaid yn mynd i weddio yn ystod Eid? 6. Cyfrannu i elusen

Cymharu Dathliadau

TASG

MEDDWL – PÂR - RHANNU

Meddyliwch sut y mae Cristnogion yn dathlu y Nadolig a sut mae Moslemiaid yn dathlu Eid-al-Fitr. Oes yna unrhyw debygolrwydd rhwng y ffordd y mae'r ddwy ŵyl yn cael eu dathlu? Beth ydyn nhw?

Defnyddiwch y tabl isod i nodi eich syniadau:

YR HYN SYDD YN DEBYG	Y GWAHANIAETHAU

RHYWBETH i FEDDWL AMDANYNT ……

C. Pam ei bod yn bwysig i feddwl am bobl eraill yn ystod amserau dathlu?
C. Pam bod y weithred o roi yn bwysig?
C. Beth ydych chi yn fwynhau orau - rhoi neu dderbyn anrhegion ? Pam ?

Atebion y croesair

AR DRAWS	LAWR
1. Degfed 3. Lleuad newydd 4. Persawr 7. Eid Mubarak 8. Gwyliau 9. Eidi	1. Dillad Newydd 2.Teulu 5. Mosg 6. Zakat

Mudiad Addysg Grefyddol Cymru

Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX (Tel/Ffacs: 01654 - 761 697)
e bost: salipatshyn@hotmail.com

© MAGC 2021